

Edwina Hart MBE CStJ AC / AM  
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

24 Mehefin 2015

Annwyl Edwina

### **Gwaith craffu dilynol ar Gyllid Cymru / Banc Datblygu i Gymru**

Fel y gwyddoch, ar 13 Mai 2015, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid sesiwn ddilynol gyda'r Athro Dylan Jones–Evans, Cadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Banc Datblygu i Gymru, a Robert Lloyd Griffiths, Cadeirydd Bwrdd Strategol Busnes Cymru. Cynhaliwyd y sesiwn dystiolaeth ar ôl inni gyhoeddi ein hadroddiad ar [Gyllid Cymru](#) ym mis Mai 2014 a'r [astudiaeth ddichonoldeb i greu banc datblygu i Gymru](#). Yn dilyn y sesiwn hon, ysgrifennais at Kevin O'Leary, Prif Weithredwr Dros Dro Cyllid Cymru a thrafododd yr Aelodau [ymateb](#) Mr O'Leary yn ein cyfarfod ar 17 Mehefin.

Mae gan y Pwyllgor nifer o bryderon ynglŷn â'r newidiadau sy'n digwydd. Rwyf wedi amlinellu'r rhain isod i chi eu hystyried wrth fwrw ymlaen â'r cynlluniau ar gyfer Cyllid Cymru a Banc Datblygu i Gymru.

Pan wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad, cawsom ein calonogi i ganfod bod Cyllid Cymru yn uchel ei barch yn y rhan fwyaf o'r sector busnes, yn ogystal ag ar draws y DU a thu hwnt. Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad bod 'hwn yn ymchwiliad cadarnhaol a oedd yn dangos, er nad yw Cyllid Cymru yn berffaith, bod ynddo lawer i'w ganmol.'



Mae'r Pwyllgor yn nodi argymhelliad allweddol o adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen:

*“Potential efficiency gains from the DBW – the intention would be that the majority of funds would be outsourced which ‘presents the opportunity for the Welsh Government to develop a more efficient and cost-effective organisation’. (paragraff 151).”*

Roedd yr ymateb gan Gyllid Cymru yn cwestiynu y gallai banc datblygu wneud arbedion effeithlonrwydd pe bai rhai cronfeydd yn cael eu rheoli'n allanol. Dywedodd Cyllid Cymru:

"FW [Finance Wales] does not accept that awarding fund management contracts externally will deliver the efficiency savings...."

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am eglurhad ar yr arbedion effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â rheoli cronfeydd yn allanol.

Yn ychwanegol at hynny, mae'r contract allanol hwn yn codi cwestiynau ynghylch dyfodol y staff a gyflogir gan Gyllid Cymru i fuddsoddi a gweinyddu cronfeydd. Credwn yn gryf y dylai sgiliau a gwybodaeth Cyllid Cymru a'i staff gael eu defnyddio i fwrw ymlaen â'r model banc datblygu. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd yr Athro Dylan Jones–Evans:

“there are key individuals within Finance Wales, like I said, particularly on the risk management side and on the programme management side, who would have to be retained within that. So, in the end, what will have to happen, as happened when the Welsh Development Agency was merged into Welsh Government, I suppose, is that you'll have to look at what skillsets you need to move forward and what other skillsets are required to do that.”

Hoffai'r Pwyllgor weld eglurder ynghylch esblygiad Cyllid Cymru i fanc datblygu a sut y bydd staff presennol Cyllid Cymru yn cael eu defnyddio a'u cynnwys yn y cyfnod pontio hwn. Yn amlwg, mae costau'n gysylltiedig â'r math hwn o newid, o ran diswyddiadau posibl a morâl staff ac ati, a hoffai'r Pwyllgor weld rhagor o fanylion am y dull o ymdrin â'r costau hyn.



Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod y cynnig ar gyfer banc datblygu yn gymhleth ac y bydd angen datrys y trefniadau ariannu manwl yn ddiweddarach. Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor yn credu bod dadansoddiad digonol wedi cael ei wneud o'r opsiynau ar gyfer ariannu banc datblygu, y risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hyn, a'r modd y byddai cyllid a rhwymedigaethau'r banc yn ymwneud â chyllid a rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru. Byddwn yn gwerthfawrogi eglurhad o hyn .

Roedd un arall o argymhellion y Pwyllgor yn cyfeirio at y trefniadau craffu ar gyfer Cyllid Cymru. Hoffem bwysleisio y byddai'r argymhelliad hwn, o ran craffu ar sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus, yn berthnasol i unrhyw gyfleoedd i Gyllid Cymru neu greu Banc Datblygu i Gymru. Hoffem weld yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno i un o bwyllgorau'r Cynulliad graffu arnynt bob blwyddyn.

At ei gilydd, mae'r Pwyllgor yn pryderu ein bod, yn ystod yr ymchwiliad a gynhaliwyd gennym i Gyllid Cymru, wedi ein calonogi ar y cyfan ac yn teimlo bod llawer iawn o waith da yn cael ei wneud gan Gyllid Cymru. Fel Pwyllgor, hoffem weld camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod sgiliau, gwybodaeth a phrofiad y sefydliad hwn yn cael eu defnyddio, ac adeiladu ar y gwaith da.

Yn gywir



**Jocelyn Davies AC**  
**Cadeirydd**

cc:

William Graham AC, Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes  
Kevin O'Leary, Prif Weithredwr Dros Dro, Cyllid Cymru

